| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 18 Chwefror 2021 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant presennol, ac awgrymu unrhyw deitlau neu chefnogaeth ychwanegol yr hoffent i'r tîm *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad* ei ddarparu |
| **AWDUR** | Carey Cartwright (Rheolwr *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad*) |

## 1. **<u>TROSOLWG</u>**

Yn hanesyddol, darparwyd rhaglen ddatblygol gynhwysfawr yn cynnwys hyfforddiant wyneb i wyneb 'traddodiadol', ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu, yn ogystal â rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth.

Fodd bynnag (fel a nodwyd yn adroddiad 17 Tachwedd 2020) ni fu'n bosib cynnal hyfforddiant wyneb i wyneb yn ystod yr argyfwng Covid, a bu'n anorfod datblygu dulliau amgen e.e. hyfforddiant rhithiol ('*o bell*'). Fel canlyniad, mae hyn wedi cyfyngu'r nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yma. Rydym yn parhau i ymgynghori ar gynnwys ac arddull dysgu rhaglen hyfforddiant 2020/21, er mwyn cynnig amrywiaeth o deitlau perthnasol o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen yn cynnwys teitlau *allweddol/craidd* (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau *datblygol* ble mae cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain.

## 2. **<u>DIGWYDDIADAU DATBLYGOL</u> (Tachwedd 2020 - Ionawr 2021)**

### 2.1 **<u>Perspectif merched sy'n Gynghorwyr</u>**

Dyddiadau: 10&11.11.20 Dull: 'Sgwrs' Teams Nifer a fynychodd: 9

<u>Adborth:</u> *Vera Jones i adrodd ar lafar*

### 2.2 **<u>Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd ac Ynys Môn)</u>**

Dyddiadau: 1&2.12.20 Dull: Zoom Nifer a fynychodd: 27

<u>Adborth</u>:

"Roeddwn i yn teimlo fod y sesiwn wedi bod yn llwyddiant, ac roedd yn fuddiol. Er fod rhywun yn ymwybodol o'r Cynllun, mae'n ddefnyddiol cael "refresher". Roedd yn ddefnyddiol clywed barn

cynghorwyr eraill o'r cynllun, a chael ymateb y Swyddogion proffesiynol i hyn. Roedd y dull o gyflwyno yn llwyddiannus, y cyflwyniad wedi gweithio yn dda trwy Zoom. Cawsom ychydig o gyfathrebu pellach trwy e-bost yn dilyn y sesiwn i esbonio rhai pethau ymhellach. Dwi'n gobeithio y bydd cyfleon pellach yn y dyfodol i gynnig sesiynau cyffelyb. Yn anffodus nid pob cynghorydd sydd yn cymryd mantais o'r cyfleon hyfforddiant sydd yn cael eu cynnig, ond nid yw hyn yn adlewyrchiad o'r hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig, wneith rhai ddim mynychu dim ots beth sydd yn cael eu gynnig!"

"Gan fod y pandemic wedi effeithio y cyfarfodydd arferol mi oedd y sesiynnau yn holl bwysig i Aelodau. Mi oedd y niferoedd yn uwch nar arfer hefyd. Mi oedd cyflwyniad Rebecca ac eraill o werth yn bendant i Aelodau gyda digon o amser i holi ar y diwedd. Mi oedd yn UPDATE gwerthfawr mewn maes sydd yn un anodd i ddeud y lleiaf."

2.3 **Syndrom Dieithryn *('Imposter Syndrome')***

Dyddiadau: 4.12.20 & 28.1.21 Dull: Zoom 11

Adborth:

"Hoffwn ddiolch yn fawr am yr hyfforddiant ar syndrom dieithryn, roedd yn wych. Roedd yn codi llen ar gyflwr cudd mewn ffordd ond yn amlwg wrth drafod yn gyflwr cyffredin iawn. Roeddwn yn gallu uniaethu gyda llawer o elfennau o'r cyflwr ac yn chael cysur o wybod bod hyn yn gyffredin a bod modd ceisio ei liniaru. Roedd y cyflwynwyr yn ardderchog , yn glir ac yn onest."

"Roedd yr hyfforddiant yn arbennig o dda ."

"Hyfforddiant diddorol iawn ble mae'n rhaid imi gyfaddef, nid oeddwn yn gwybod dim byd amdan y pwnc. Diddorol gweld sut all hyn gael effaith ar wahanol bobl."

2.4 **Troseddu Cyfundrefol – Llinellau Sirol (Gangiau Cyffuriau)**

Dyddiadau: 13.1.21 (2 sesiwn) Dull: Zoom Nifer a fynychodd: 30

Adborth:

"Sesiwn buddiol iawn. Cawsom sesiwn debyg rai blynyddoedd yn ôl, ac mi roedd yn dda cael diweddariad am y sefyllfa. Dwi'n teimlo bod sesiwn rhannu gwybodaeth/cwestiwn-ac-ateb fel hyn yn gweithio'n iawn ar Zoom."

"Hoffwn gadarhau fod y Sesiwn Troseddu Cyfundrefnol a gynhaliwyd ar y 13eg o Ionawr wedi bod yn fuddiol iawn, i gael cefndir a gwybodaeth am sut mae adnabod unrhyw achos posib o droseddu, ynghyd a chael gwybod beth i'w wneud a phwy i gysylltu gyda o fewn yr Heddlu. Nid odd y ffaith fod y sesiwn yn cael ei gynnal 'o bell' yn tynnu dim oddiarno, ac fe ddysgais lot ohono.!

2.5 **Lansiad Gwefan Dementia Actif Gwynedd**

Dyddiadau: 19.1.21 Dull: Teams Nifer a fynychodd: 26

Adborth:

"Sesiwn arbennig o dda. Mae'n braf gweld ein bod wedi cymeryd camau breision ymlaen i ofalu am bobl bregus Gwynedd. Yn fy marn i mae gwaith y grwp Dementia tros y blynyddoedd wedi bod yn un o lwyddianau mwyaf Cyngor Gwynedd. Mae lansiad y wefan newydd Dementia Actif yn rhoi cyfle i bawb weld, craffu a dysgu sut y mae pethau yn datblygu ac yn sicr yn dangos i ni be sydd yn digwydd yn y cyngor yn y maes eithriadol o bwysig yma. Mae gweithgareddau ac ymroddiad y grwp yma o staff y cyngor yn anhygoel a mae hyn iw weld yn ymateb trigolion y sir. Rhaid yw i ni sylweddoli cymaint y mae canran o drigolion Gwynedd sydd yn y maes yma yn cynyddu oherwydd oedran ein cymunedau."

"Sesiwn rhithiol oedd hwn a fu yn hynod o lwyddianus gan bod cyfleoedd yma i ni gyd 'ddysgu', ehangu ein gorwelion ond ar yr un pryd cael cyfle i holi."

2.6 **Hunanofal a Delio â Gorbryder**

Dyddiadau: 13.1.21(2 sesiwn) Dull: Teams Nifer a fynychodd: 16

Adborth:

"Mae cydnabod materion iechyd meddwl yn holl bwysig ac mae cynnal hyfforddiant o'r math yma yn gallu esgor ar sgyrsiau pwysig a defnyddiol. Roedd yn sesiwn oedd yn cynnig camau ymarferol i gynorthwyo gydag hunanofal a gor bryder , roedd yn werthfawr, diddorol a pherthnasol. Mae'n debyg bod cydnabod pwysigrwydd hunan ofal a delio gyda gor bryder yn bwysiach rwan nag erioed , diolch i Cyngor Gwynedd am drefnu sesiwn mor bwysig a defnyddiol. Mae'r gwerthafwrogiad yn fawr. "

"Roedd y sesiwn gyda Andrew yn un diddorol ac yn dda clywed fod bobl eraill yn mynd trwy amserau caled yn eu bywyd. Covid wrth gwrs ddim yn helpu'r sefyllfa. Roedd Andrew a syniadau da o sut i helpu eich hunan."

"Sesiwn buddiol a diddorol - hynod o amserol - Diolch i'r cyflwynydd ac i'r adran am drefnu."

"Mi oedd y sesiwn gyda Andrew Tamplin yn ddefnyddiol ac yn neu di rhywun feddwl am beth sydd yn mynd ymlaen yn ei bywyda a pwysicrwydd creu chydig o amseri ni ein hun….os rhywbeth mi on yn teimlo fod angen efallai hanner awr ychwanegol i aelodau sgwrsio ymysg ei gilydd ar ol ei gylwyniad….."

**2.7 Cymhelliant**

Mae sesiynau cymhelliant yn parhau i gael eu cynnig, ac mae un Aelod wedi manteisio arnynt yn ystod y cyfnod yma.

## 3. HERIAU

3.1 **Datblygu dulliau gwahanol i ddarparu Hyfforddiant**

Mae'n rhaid cydnabod nad yw'r dull newydd o ddysgu rhithiol ('o bell') yn mynd i fod at ddant pawb, a bod rhagfarnau'n bodoli am ddysgu digidol – sy'n aml yn seiliedig ar brofiadau drwg o ddefnyddio 'hen' dechnoleg.

**3.2 Ymateb y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**

- Parhau i gasglu tystiolaeth am rwystrau i Aelodau fanteisio ar gyfleoedd datblygol
- Parhau i ddatblygu systemau dysgu rhithiol ('o bell') sy'n hawdd i'w defnyddio
- Cefnogi Aelodau o ran sgiliau i gael mynediad rhwydd i ddysgu trwy dechnoleg
- Gwahodd Aelodau i amlygu 'bylchau' yn y ddarpariaeth Dysgu
- Teilwrio rhaglenni dysgu i anghenion unigolion a grwpiau
- Darparu profiadau dysgu gwerthfawr a da (cyfle i newid meddylfryd a diosg rhagfarnau)

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried trefniadau hyfforddiant rhithiol ('o bell') ac awgrymu unrhyw gefnogaeth ychwanegol fuasai'n galluogi Aelodau i fanteisio ar gyfleoedd datblygol, a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.***

## 4. RHAGLEN HYFFORDDIANT 2020/21

4.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2020/21 yn parhau i esblygu. (Atodiad 1)**.** Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:-

- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol
- Awgrymiadau gan Aelodau (meysydd ar gyfer datblygiad personol yn ogystal â grwpiau)

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol a chynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i'w cynnwys.***

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

**ATODIAD 1**

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| 21 September - 9 October (am)<br>(pm) | Robeco Training | | |
| Hydref / October (am)<br>(pm) | Hyfforddiant Caffael | Modiwl e ddysgu | Huw Griffiths |
| Hydref / October (am)<br>(pm) | Eglurder o rôl a chyfrifoldebau'r Adran Addysg a GwE (gan gynnwys atebolrwydd ysgolion yn sgil y drefn newydd o beidio cyhoeddi canlyniadau yn unol â chyfarwyddyd LlC) | | Garem Jackson a GwE |
| Tachwedd 10 November (14:00 – 15:00) | Y pandemig: Perspectif merched sy'n Gynghorwyr/ The pandemic: Women Councillor's Perspective | Teams neu Zoom | Vera Jones a Nonn Hughes |
| Tachwedd 11 November (16:00 – 17:00) | Y pandemig: Perspectif merched sy'n Gynghorwyr/ The pandemic: Women Councillor's Perspective | Teams neu Zoom | Vera Jones a Nonn Hughes |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 1 December (14:00 – 16:00) | Hyfforddiant Polisi Cynllunio ar y cyd \| Joint Local Development Plan (Gwynedd & Anglesey) | Zoom | Gareth Jones<br>Rebeca Angharad Jones<br>Cara Owen |
| Rhagfyr 2 December (14:00 – 16:00) | Hyfforddiant Polisi Cynllunio ar y cyd \| Joint Local Development Plan (Gwynedd & Anglesey) | Zoom | Gareth Jones<br>Rebeca Angharad Jones<br>Cara Owen |
| Rhagfyr 4 December (10:00 – 11:00) | Syndrom Dieithryn / Imposter Syndrome | Zoom | Marian Jones, Aled Rhys Jones, |
| Ionawr 13 January 2021 (10:00 – 11:00)<br><br>(11:30 – 12:30) | Troseddu Cyfundrefol – Llinellau Sirol (Gangiau Cyffuriau) (Cymraeg)<br>Organised Drug Gangs – County Lines<br><br>Troseddu Cyfundrefol – Llinellau Sirol (Gangiau Cyffuriau) (Cymraeg)<br>Organised Drug Gangs – County Lines (English Session) | TEAMS<br><br>TEAMS | Llinos Davies (Heddlu Gogledd Cymru) |
| Ionawr 19 January (11:30 – 12:00) | Lansiad Gwefan Dementia Actif Gwynedd\| Dementia Actif Gwynedd Launch of Website | Zoom | Emma Quaeck a Lia Haf Roberts |
| Ionawr 26 January (10:00 – 11:00)<br>(4:00 – 5:00) | Hunanofal a Delio â Gorbryder (Sesiwn Cymaeg) \| Self Care and Dealing with Anxiety (Welsh Session) | TEAMS | Andrew Tamplin (Canna Consulting) |
| | | | |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr 28 January | (2:00 – 3:00) | Syndrom Dieithryn \| Imposter Syndrome | Zoom | Marian Evans a Aled Rhys Jones |
| Chwefror 24 February<br><br>Chwefror 25 February | (2:00 – 3:00)<br><br>(4:30 – 5:30) | Trefniadau Cwynion Ysgol – Y gwahanol fathau o gwynion, pa Bolisi sy'n berthnasol a sut mae delio â nhw \| School Complaints Procedures – the different types of complaints, what Policies are appropriate and how to deal with them | TEAMS (Sesiwn Cymraeg)<br><br>Zoom (Dwyieithog \| Bilingual) | Buddug Mair Huws |
| Mawrth / March | (am)<br><br>(pm) | Sgwrs / tips TG \| Chat / IT tips<br><br>--- | ??? | ???? |
| Ebrill / April<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau \| Date to be confirmed | (am)<br><br>(pm) | Sesiwn Briffio i Aelodau Etholedig - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 / Briefing Session for Members – Additional Learning Needs and Education Tribunal Act (Wales) 2018) | Zoom / TEAMS | Ffion Ellis Edwards (Addysg) |